
*Rhif*: ***29*** *Ardal o Gymeriad Morwedd:* **Dyfroedd alltraeth deheuol**




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2020
Sources: Ordnance Survey, Seazone, Pembrokeshire Coast National Park Authority, Natural Resources Wales

**ACM29:Dyfroedd arfordirol deheuol**



*Ardal a welir rhwng Skokholm a Sgomer yn y môr*



*Ardal allan i'r môr o Freshwater West (yn SCA34)*



*Ardal allan i'r môr o Benrhyn Sant Gofan (yn SCA35)*

**Disgrifiad Cryno**

Mae'r ardal alltraeth ddeheuol hon yn ymestyn o Sgomer hyd at i'r de o Benrhyn Lydstep, gan lapio o gwmpas yr ardaloedd o dirwedd arfordirol. Ar y cyfan mae'n gymhedrol ddwfn, gan eithrio Dyfroedd Bas Sant Gofan i'r dwyrain. Mae'r gorllewin yn ffurfio'r gosodiad i'r ynysoedd ac mae hefyd yn ardal brysur gan ei bod ar gyrion Aberdaugleddau. Defnyddir yr ardal i'r dwyrain fel rhan o faes tanio'r Weinyddiaeth Amddiffyn, Castellmartin.

**Nodweddion Allweddol**

- Ardal eang o'r môr, gan fwyaf 30-60m o ddyfnder ar wely tywod graeanaidd, gyda dyfroedd mwy bas dros dywod ar Ddyfroedd Bas St Gofan i'r dwyrain. [10-30m o ddyfnder].
- Ton straen isel yn gyffredinol, er bod y potensial am foroedd serth i'r de o Bentir y Santes Ann.
- Mae'r mwyafrif o'r ardal o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Forol Sir Benfro.
- Mae nifer o longddrylliadau yn yr ardal, gyda llawer ohonynt ar gyrion Aberdaugleddau.
- Defnyddir yr ardal gan fferïau, llongau masnachol ac at ddiben pysgota, yn ogystal â fel maes ymarfer gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.
- Mae'r ardal yn lapio o gwmpas ynys Sgomer ac ynys Gwales i'r gorllewin gan ffurfio rhan bwysig o'u gosodiad, ac mae'r ynysoedd yn nodweddion cryf o gymeriad yr ardal.
- Mae'r ardal yn ffurfio rhan o'r olygfa alltraeth orllewinol a deheuol nas difethwyd, gan gynnwys yr olygfa o Lwybr Arfordir Sir Benfro.
- Byddai'r tir i'r dwyrain yn llai amlwg, ond yn dal i fod yn nodwedd.
- Môr agored o gymeriad morol syml, cyson ac unedig nas difethwyd, ar raddfa eang iawn, ac yn meddu ar ymdeimlad arwyddocaol o fod yn agored, o bellenigrwydd a noethni.
- Mae nodweddion yr ardal yn cael eu pennu yn bennaf gan rymoedd naturiol dŵr, drwy ymchwydd y môr a'r tonnau, a'r gwynt.

**Dylanwadau Ffisegol**

O ddyfnder cymhedrol (30-60m), gwely môr o dywod graeanaidd yn troi'n dywod oddiar yr arfordir, yn gogwyddo'n araf deg (<1º) i'r de-orllewin. Mae bar tywod bas iawn (<10-30m) ar aliniad dwyrain-gorllewin (ID66; dŵr bas St Gofan), wedi'i ystlysu ar ei ymyl ddeheuol gan raean (ID75), yn cynhyrchu crychdonnau llanwol. Mae'r cerhyntau llanwol yn llifo i'r gogledd ddwyrain a'r de orllewin o gwmpas Pentir St Gofan, ac yn troi ymhellach i'r gorllewin tuag at y dwyrain a''r gorllewin. Yn gyffredinol mae'r moroedd yn agored i don straen isel. Mae gwaddodion yn y dyfroedd mwy bas yn agored i effaith cynnwrf storm a chludiant. Mae gwaddodion gwely'r môr yn gorchuddio creigwely Carnbonifferaidd sy'n streicio o'r dwyrain i'r gorllewin.

Mae mwyafrif yr ardal yn rhan o Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Forol Sir Benfro.

**Dylanwadau Diwylliannol**

Yr ardal hon yw dyfroedd glannau Môr Hafren sy'n darparu'r llwybr môr i Dde Cymru ac i Gernyw a Dyfnaint, a sydd felly a chysylltiadau cryf â llwybrau masnach morol gorllewin Prydain ers y cyfnod Cynhanes. Efallai y bydd paleodirweddau a foddwyd gan Fôr Hafren eto'n cynnig tystiolaeth o'r newid a fu o gymdeithas o helwyr-gasglwyr i gymunedau o ffermwyr sefydlog.

Mae nifer fawr o longddrylliadau yno gan gynnwys ar gyrion Aberdaugleddau. Mae'r rhain yn cynnwys y Meg Merrilies (a suddwyd o ganlyniad i ymosodiad gan awyren yn 1941), yr Antonio (1945), y Concha (a suddwyd yn 1958), y Boy Toby (1980) a'r llong hwylio Andraxia IV, yn agos at Sgogwm (1995). Roedd LCG no.16 (1943) yn gwch glanio a suddodd mewn moroedd mawr ger Pentir y Santes Ann, gan achosi i nifer sylweddol golli eu bywydau; yn sgil hyn, newidiwyd cynllun y cychod glanio.

Defnyddir y dyfroedd sy'n ffrydio y tu allan i Ynys Sgogwm a thu mewn i Ynys Gwales gan gychod hwylio sy'n hwylio am y diwrnod neu'n tramwyo, a gan longau pysgota masnachol arfordirol. Mae'r pysgota yn cynnwys rhwydi gosod gyda'r lan, potio gwichiad moch, cimwch a chranc, llif-

leinio i’r de gyda’r potensial am beth treillio estyllod gyda’r lan.

Mae’r llwybr fferi rhwng Doc Penfro a Rosslare yn croesi parthau gorllewinol yr ardal. Mae bwi St Gofan, sy’n gymorth mordwyo pwysig i longau, wedi’i leoli yn yr ardal. Mae’r ardal yn rhan bwysig o faes tanio ac ardal ymarfer milwrol Castellmartin. Yn ogystal, mae ‘na ardal ddympio ffrwydron nas defnyddir bellach yn gyfochrog â’r arfordir. Yn y gorffennol rhoddwyd trwydded Rownd 24 i'r ardal ar gyfer olew a nwy i’r gorllewin o Benrhyn Santes Ann a gellir gwneud ceisiadau yn y dyfodol.

**Nodweddion esthedig, canfyddiadol a phrofiadol**

Bu ymweliad ag ymylon gorllewinol yr ardal hon. Mae’r ardal rhwng 1km a 12km o’r arfordir. Mae’r ardal yn ffinio ar ynys Sgomer ac ynys Sgogwm cyfagos. Y disgwyl yw y byddai ystod o ddylanwadau ar y tirlun. Byddai’r clogwyni a’r tirlun gerllaw yn amlwg fel elfennau cryfion o’r tirlun, yn tremio ar yr olygfa i’r gorllewin ond yn lleihau i elfennau bach neu linell denau iawn ar y gorwel ac yn weladwy i’r de dim ond mewn gweledydd da. I’r gorllewin byddai’r ymdeimlad yn un o ymwneud â’r lan, a gyda’r cymhorthion mordwyo o gwmpas Aberdaugleddau gan gynnwys y rhai ar Bentir y Santes Ann, a’r llongau sy’n tramwyo’r ardal. I’r de ac i’r dwyrain byddai’r ardal yn rhoi’r argraff o fôr agored ymhell o ddylanwad y tir, yn hytrach na’r cysylltiad gweledol hyn.

Mae i’r môr gymeriad syml, cyson ac unedig ar raddfa eang iawn, gydag ymdeimlad arwyddocaol o fod yn agored, yn unig a noeth. Mae ei nodweddion yn cael eu pennu’n sylweddol gan rymoedd naturiol dŵr, gan ymchwydd y môr a’r tonnau a gan wynt. Mae’r ardaloedd yn agored i wyntoedd o’r de-orllewin, ac adeg tywydd gwael mae’r môr yn debyg o deimlo’n fygythiol. Yn y môr agored hwn mae tebygolrwydd o dawelwch ac ymdeimlad o wylltineb a phellenigrwydd, ond bydd y golygfeydd cyson yn y gorllewin o fferïau, llongau masnachol a chychod hamdden ac o safle danio’r Weinyddiaeth Amddiffyn tua’r dwyrain yn amharu ar hyn i raddau.

**Buddion a gwasanaethau diwylliannol**

Mae’r ardal yn cyfrannu at wasanaethau hamdden ac adloniant ar ffurf adloniant morol, at dreftadaeth naturiol ar ffurf ardal forol nas difethwyd sy’n weladwy o arfordiroeddd sensitif y Parc Cenedlaethol, ac at wasanaethau diwylliannol ac ysbrydol o ran yr ymdeimlad o wylltineb a bod yn un â byd natur, a’r llonddrylliadau yr ardal, sydd o ddiddordeb hanesyddol.

## Grymoedd am newid

**Crynodeb**

Gallai’r bar bas tywodlyd graeanllyd i raean ymgrynhoi neu fudo oherwydd symudiad gwaddod.

Mae’n debyg y bydd y dyfroedd o gwmpas Ynys Sgomer yn cael eu dynodi’n un o’r Parthau Cadwraeth Morol newydd – mae’r lefel o ddiogelwch yn dal i gael ei drafod. Mae’n ddigon posib y bydd y dyfroedd hyn yn ymestyn i’r ardal hon.

Gallai presenoldeb tanceri gael effeithiau andwyol a allai gynyddu wrth bod y traffig yn cynyddu e.e. LNG.

Byddai trwyddedau ar gyfer olew a nwy yn y dyfodol yn newid cymeriad yr ardal pe bai'n cael ei datblygu.

Yn cael ei ddefnyddio fel maes tanio gan yr Weinyddiaeth Amddiffyn.

**Grymoedd Allweddol am newid**

| Nodweddion Arbennig | Prosesau naturiol/ newid yn yr hinsawdd | Pwyasu oddiwrth ymwelwyr | Defnydd morol - masnachol a physgota | Egni ar y môr | Pwysau o ddatblygiadau | Newidiadau yn rheolaeth tir | Defnydd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Arfordir Ysblennydd | | | | | | | |
| Ynysoedd | | | | | | | |
| Amrywiaeth yn y Tirlun | | | | | | | |
| Pellter, llonyddwch ac ardal wyllt | | | | | | | |
| Daeareg Amrywiol | | | | | | | |
| Cryfder y Cynefinoedd a Bioamrywiaeth | | | | | | | |
| Archaeoleg Coeth | | | | | | | |
| Cymeriad Anheddu Nodweddiadol | | | | | | | |
| Treftadaeth Ddiwylliannol | | | | | | | |
| Mynediad at y Parc | | | | | | | |
| Lle i Anadlu | | | | | | | |
| **Allwedd** | | Newid i’r ardal sy’n effeithio ar y nodwedd arbennig dewisol | | | | | |

## Sensitifrwydd allweddol

Mae’r mwyafrif o’r ardal o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Forol Sir Benfro.

Mae’r ardal fel petai’n lapio o gwmpas Sgomer a Sgogwm i’r gorllewin gan ffurfio elfen bwysig o’i lleoliad.

Mae’r ardal yn rhan o’r olygfa nas difethwyd o’r arfordir gorllewinol a deheuol, gan gynnwys yr olygfa oddiar Llwybr Arfordir Sir Benfro.

Môr agored o gymeriad morol cyson ac unedig nas difethwyd, ar raddfa eang iawn, ac yn meddu ar ymdeimlad arwyddocaol o fod yn agored ac o bellenigrwydd.

Presenoldeb fferïau a llongau masnachol.

Presenoldeb maes tanio ymarfer yr Weinyddiaeth Amddiffyn.